-

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 15 Mai 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Rhestr o'r prosiectau sy'n cael eu hariannu o dan Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf Iechyd Cymru Gyfan 2001/02** |

## Diben

1. Rhoi crynodeb ysgrifenedig i Aelodau'r Pwyllgor a rhoi gwybod iddynt am bob prosiect sy'n cael ei ariannu o dan Raglen Adnewyddu Cyfalaf Iechyd Cymru Gyfan 2001/02. Gofynnir i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r rhestr amgaeedig o brosiectau, cynlluniau ac offer a brynwyd.

## Crynodeb ac Argymhellion

2. Dyranwyd £40m o arian hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn ystod 2001/02 i Raglen Adnewyddu Cyfalaf Iechyd Cymru Gyfan a'i gwnaeth yn bosibl i Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru ariannu cynlluniau a phrosiectau cyfalaf pwysig na fyddai wedi datblygu yn ystod blwyddyn ariannol 2001/02 heb yr arian. Mae gan yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd restr pellach o gynlluniau y gallent eu datblygu yn 2002/03 petai cyfle tebyg ac arian ar gael.

## Y Cefndir

3. Fel rhan o Broses Cynllunio'r Gyllideb ar gyfer 2001/02, nododd y Gweinidog Cyllid y potensial i ddyrannu arian diwedd blwyddyn i'r GIG. Lluniwyd cynlluniau ar gyfer Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf GIG Cymru Gyfan.

4. Prif ofynion y Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf yw:

- bod yn rhaid i'r cynlluniau allu cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol.
- nad yw'r arian ychwanegol yn effeithio ar y gofyn i wario'r gyllideb cyfalaf ddewisol eleni a'r hyn a ddygwyd ymlaen o ddyraniadau cyfalaf dewisol y llynedd.
- bod yn rhaid rheoli'r cynlluniau yn dynn a'u cyflwyno o fewn y flwyddyn ariannol.
- bod yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd yn cytuno i reoli neu gynnwys unrhyw ymrwymiadau refeniw cysylltiedig a pharhaus.

5. Gofynnwyd i gyrff GIG Cymru gynnig cynlluniau a fyddai'n esgor ar fanteision i'r gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- Amnewid hen offer meddygol.
- Mynd i'r afael â materion cydsyniad statudol ac iechyd a diogelwch.
- Datblygu cynlluniau caffael blynyddoedd sydd i ddod er mwyn galluogi i fwy o gynlluniau dderbyn cyfalaf dewisol flwyddyn nesaf.
- Gwelliannau sylweddol a gweledol i ansawdd amglychedd gofal y cleifion.
- Datblygu capasiti.
- Cymryd camau i gyflawni'r ymrwymiadau i 'Wella Iechyd yng Nghymru' a'r Cytundeb Partneriaeth.
- Gwneud arbedion trwy brynu mewn swmp yn hytrach na bod ymddiriedolaethau unigol yn prynu offer ar wahân. Bydd Cyflenwyr Iechyd Cymru (WHS) yn ymgymryd ag unrhyw broses gaffael ganolog ar ran y Cynulliad.

6. I ddechrau nododd yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd gwerth dros £100m o gynlluniau a fyddai modd eu cwblhau ymhen y flwyddyn. Fodd bynnag yn dilyn cyhoeddiad y byddai £40m yn cael ei ddyrannu aethpwyd i'r afael â phroses i flaenoriaethu a chytunwyd ar restr derfynol o gynlluniau (gweler Atodiad A). Rhanwyd y £33m i'r Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd yn ôl y fformwla dyrannu cyfalaf sy'n seiliedig ar % yr oedran. Clustnodwyd y £7m oedd ar ôl i wasanaethau a chynlluniau Cymru Gyfan sydd â blaenoriaeth uchel.

7. Ochr yn ochr â'r Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf Cymru Gyfan, prynwyd 6 Sganiwr CT a 2 Sganiwr MRI gydag arian o Raglen Cyfalaf Cymru Gyfan.

**Rheoli a Chydlynu Rhaglenni:**

8. Fe wnaeth yr Is-adran Ystadau a Thechnoleg Rheoli Gwybodaeth Iechyd ymgymryd â'r dasg o roi'r rhaglen ar waith a threfnu'r cyfarfodydd cydlynu misol, a oedd yn cynnwys dadansoddiad carreg filltir i sicrhau bod y rhaglen yn mynd yn ei blaen yn unol â'r amserlen. Mae Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru wedi cadarnhau bod yr holl arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf wedi cael ei wario ar y cynlluniau/prosiectau priodol.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi bod yr arian wedi cael ei wario'n llwyddiannus a bod Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf 2001/02 wedi'i chwblhau.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**